# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 6ED MEDI 2017 AM 2.00 P.M.

---

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D.V. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C.J. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) a Mrs E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Corfforaethol - Cymunedau) a N. Scammell (Cyfarwyddwraig Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro a Swyddog Adran 151).

Hefyd yn Bresennol:

R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd), M. Williams (Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro), J. Carpenter (Rheolwr Treth y Cyngor a AAG) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

**1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb gan y Cynghorydd Mrs B.A. Jones, P.A. Marsden (Addysg a Chyflawniad) a S. Morgan a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol).

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

**3. CABINET – 19EG GORFFENNAF 2017**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Gorffennaf 2017 (rhifau cofnod. 1 - 8) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**MATERION A OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**4. GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS (RHEOLI CŴN) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI 2017**

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Cabinet am ganlyniad ymgynghoriad statudol y Cyngor ar gynigion a gynhwyswyd yn y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus drafft i fynd i'r afael â pherchnogaeth anghyfrifol ar gwn a baw cŵn a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cabinet i ddod yn Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus drafft, o dan y Ddeddf Ymddygiad, Trosedd a Phlismona 2014 sy'n darparu pwerau cyfreithiol ychwanegol ar gyfer rheoli cŵn.

Cyflwynwyd Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 a gellir eu defnyddio i reoleiddio gweithgareddau mewn mannau cyhoeddus penodol i sicrhau bod y mwyafrif sy'n cadw'r gyfraith yn gallu defnyddio a mwynhau mannau cyhoeddus yn ddiogel rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol. O ganlyniad i hyn, maent yn rhoi cyfle i wella gallu gorfodaeth y Cyngor i ymateb i farn y cyhoedd yn ymwneud â baeddu cŵn. Fe wnaeth y farn hon amlygu ei hun drwy gwynion i swyddogion ac Aelodau, Arolwg Tai'r Cyngor, a phryderon a godwyd drwy'r broses Eich Llais.

Yn ei gyfarfod ar 18fed Ionawr 2017, fe wnaeth y Cabinet arnodi cynigion i ymgymryd ag ymgynghoriad statudol ar ddarpariaethau amrywiol gall efallai gael ei gynnwys mewn Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus s'yn ymwneud â Rheoli Cŵn, gyda rhai sy'n newid y pwerau presennol tra bod eraill yn newydd.

Cafodd crynodeb o'r ymatebion ymgynghori eu hatodi i'r adroddiad. Fe wnaeth yr ymgynghoriad cyhoeddus statudol ddarparu cymorth er mwyn gweithredu yn erbyn perchnogion cŵn anghyfrifol, er cafodd y mwyafrif o ymatebion eu derbyn gan berchnogion (er mwyn cysondeb)cŵn eu hunain. Roedd cytundeb cryf gyda'r holl gynigion.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad manwl a thrafodwyd y cynigon wedyn. Roedd y Cabinet yn hapus i gefnogi'r cynigion, ond roeddent yn pwysleisio'r angen i adolygu'r penderfyniad i adael y cynnig i eithrio cŵn o gaeau chwarae/chwaraeon sydd yn berchen i'r Cyngor yn dymhorol.

Yn ychwanegol at hyn, fe wnaeth Aelod wneud cais fod y Man Chwarae Aml Ddefnydd ym Mharc Trelyn, gael ei gynnwys yn y cynigion manwl.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog: -

(i) fod canlyniad yr ymgynghoriad sy'n ymwneud â'r darpariaethau a gynhwysir yn y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus drafft gael ei nodi;

(ii) fod y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus arfaethedig, fel y nodwyd yn Atodiad 4 yr adroddiad i gael ei gymeradwy a'i fabwysiadu.

**5. GWEITHFEYDD I HWYLUSO GWAREDU SAFLE TŶ PONTLLAN-FRAITH**

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i allu dymchwel Tŷ Pontllanfraith a'r safle angenrheidiol, ac ymchwiliadau eraill i hysbysu'r broses waredu a sicrhau bod y cronfeydd angenrheidiol ar gael i ariannu'r costau hyn.

Cafodd y safle ei farchnata a gwahoddwyd tri pharti am gyfweliad ffurfiol. Ar ôl dadansoddiad pellach o’r cynigion, cafodd prynwr dewisol ei ddewis; ac mae trafodaethau i fireinio’r? dyluniad yn parhau.

Mae elfen Fasnachol y cynnig i brynu yn dal i gael ei gofio ac erbyn hyn mae'n glir na fydd cynnig cadarn net yn cael ei sefydlu nes bydd ymchwiliad manwl wedi'i gwblhau. Mae'r adeiladau'n parhau i achosi cost a chynigir bod y Cyngor yn achosi’n uniongyrchol dymchwel yr adeiladau, a'r safle angenrheidiol ac ymchwiliadau eraill i lywio'r broses waredu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, ac wrth ddefnyddio arian o'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd, i gymeradwyo dymchwel yr adeiladau ac i gymeradwyo’r ymchwiliad angenrheidiol o’r safle ac ymchwiliadau eraill a bod pob gwaith yn cael ei gaffael yn unol â Gorchmynion Archeb Sefydlog ar gyfer contractau.

## 6. DILEU DYLEDION DROS £20,000 - ÔL-DDYLEDION AAG AR GYFER CWMNÏAU CYFYNGEDIG

Ar 15fed Medi 2009, cymeradwyodd y Cabinet weithdrefn dileu am ddyledion diwygiedig sy'n ddeunydd, lle bod y ddyled unigol yn fwy na £20,000. Ceisir cymeradwyaeth i ddileu dau gyfradd annomestig genedlaethol, a elwir hefyd yn gyfradd fusnes, dyledion lle mae'r ddyled unigol yn fwy na £20,000 ym mhob achos.

Nodwyd, oherwydd bod dyledwyr yn dianc, gan ddatgan eu hunain yn fethdalwyr drwy fethdaliad/datodiad neu weithredoedd eraill, gan roi'r gorau i fasnachu, marw heb ystâd, ac oherwydd dulliau cyfyngedig mae amgylchiadau anochel pan na ellir casglu dyledion. Ar ôl i’r dulliau cyfreithiol fynd yn hysb, bydd penderfyniad yn cael ei wneud i ddileu’r dyledion. Mae’r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yn derbyn adroddiad bob 6 mis drwy grynhoi gwerth y dyledion a ddilëwyd gan yr Awdurdod. Dylid nodi fod y gyfradd busnes yn ddyled ansicredig pe bai methdaliad/ datodiad yn digwydd.

Trafododd yr adroddiad ddau achos yn fanwl. Roedd gan yr achos cyntaf ardrethi o £26,944.26 heb eu talu mewn perthynas ag atebolrwydd cyfradd meddiannaeth yn ystod y cyfnod 14eg Mehefin 2012 i 31ain Rhagfyr 2014 yn gynhwysol. Cyhoeddodd yr Awdurdod filiau ardrethi a chafodd orchmynion atebolrwydd mewn perthynas â'r ddyled, cytunwyd ar gynllun talu a chasglwyd taliadau o £5,212.00. Wedyn, cafodd asiant gorfodaeth ei gyfarwyddo i adennill y ddyled ond cyn i’r symiau pellach gael eu hadennill, cafodd y cwmni ei ddiddymu. Y rhwymedigaeth gyfan (gan gynnwys £112.33 o gostau llys) oedd £32,765.30, gyda £5,933.37 wedi cael ei gasglu, oedd yn gadael balans heb ei dalu o £26,944.26. Diddymwyd y cwmni ar 21ain Gorffennaf 2015 trwy 'ddileu' gwirfoddol yn ôl cofnodion Tŷ'r Cwmnïau. Yn yr achos annhebygol y derbynnir unrhyw daliad yn y dyfodol mewn perthynas â'r ôl-ddyledion hyn, bydd swm cyfatebol o'r ddyled yn cael ei adfer.

Roedd gan yr ail ardrethi o £20,209.87 heb eu talu mewn perthynas ag atebolrwydd cyfradd meddiannaeth yn ystod y cyfnod 1af Medi 2013 tan 31ain Mawrth 2016 yn gynhwysol. Fe wnaeth yr Awdurdod gyhoeddi galwadau cyfradd a derbyn gorchmynion rhwymedigaeth sy’n ymwneud â’r ddyled. Ni dderbyniwyd unrhyw daliadau ac ar ôl hynny cafodd asiant gorfodaeth ei gyfarwyddo er mwyn adennill y ddyled. Cyfanswm y rhwymedigaeth (gan gynnwys costau llys £171.10) oedd £34,898.29, a chasglwyd £14,859.52, gan adael balans o £ 20,209.87 heb ei dalu. Diddymwyd y cwmni ar 1af Ebrill 2016 a chyflwynodd yr Awdurdod hawliad am y ddyled oedd heb ei dalu i ymarferwyr ansolfedd. Yn yr achos annhebygol y derbynnir unrhyw daliad yn y dyfodol mewn perthynas â'r ôl-ddyledion hyn, bydd swm cyfatebol o'r ddyled yn cael ei adfer.

Yn yr achosion hyn ni fydd yr Awdurdod yn cael pwerau cyfreithiol pellach i adennill y dyledion

sydd heb eu talu.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am yr adroddiad a cheisio sicrhau fod yr holl fesurau posibl yn cael eu gwneud i adennill y ddyled. Amlinellodd y swyddogion, er bod yr arian yn cael ei gasglu ar ran Llywodraeth Cymru, ac nad oes unrhyw effaith sylweddol ar falansau'r Cyngor, cymerir pob mesur rhesymol i adennill y ddyled.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad a gynhwysir yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion fod y dyledion a fanylir ym mharagraffau 4.3 a 4.4 o'r adroddiad yn cael eu dileu ar y sail nad ydynt yn anadferadwy.

**EITEMAU EITHRIO**

Fe wnaeth yr aelodau ystyried brawfrawf diddordeb y cyhoedd a daethant i'r canlyniad ar ôl ystyriaeth fod diddordeb y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad sy'n gorbwyso diddordeb y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth a :-

> PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod oherwydd y tebygolrwydd fod gwybodaeth eithredig yn cael eu datgelu fel y diffinnir ym mharagraffau 14 o Atodlen 12A o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**7. DILEU DYLEDION DROS £20,000 - ÔL-DDYLEDION AAG**

Ar 15fed Medi 2009, fe wnaeth y Cabinet gymeradwyo dull dilead diwygiedig ar gyfer dyledion sydd yn faterol, lle mae dyled yr unigolion yn fwy na £20,000.

Ceisiodd yr adroddiad gymeradwyaeth y Cabinet i ddileu dyled Ardreth Annomestig Genedlaethol, a elwir hefyd yn gyfradd busnes, lle mae'r ddyled unigol yn fwy na £20,000.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, yr argymhelliad a gynhwysir ym mharagraff 10.1 o'r adroddiad.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.36 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Medi 2017.

________________________

CADEIRYDD